------------------------Pecyn dogfennau cyhoeddus ------------------------

# Agenda - Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Lleoliad:

**Fideogynhadledd drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Llun, 15 Tachwedd 2021

Amser: 13.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**P Gareth Williams**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddDCC@senedd.cymru

Rhag-gyfarfod anffurfiol (13.00 - 13.30)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon.

13.30

## 2 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Diwygio Cyfraith Lesddaliad (Rhent Tir) ac ar y Bil Diogelwch Adeiladau: Sesiwn dystiolaeth gyda'r Gweinidog Newid Hinsawdd

13.30 - 14.30 (Tudalennau 1 - 27)

Julie James AS, y Gweinidog Newid Hinsawdd

Anna Hind, Cyfreithiwr Llywodraeth, Llywodraeth Cymru

Francois Samuel, Pennaeth Polisi Rheoliadau Adeiladu, Llywodraeth Cymru

Simon White, Pennaeth Deddfwriaeth Tai, Llywodraeth Cymru

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol - y Bil Diwygio Cyfraith Lesddaliad (Rhent Tir)

Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol - y Bil Diogelwch Adeiladau

LJC(6)-13-21 - Briff

## 3 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3.

14.30 - 14.35

Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Gwneud Negyddol

**3.1 SL(6)068 – Gorchymyn Gweithdrefn Ddatblygu (Ymgyngoreion) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2021**

(Tudalennau 28 – 30)

Rheoliadau

Memorandwm Esboniadol

LJC(6)-13-21 – Papur 1 – Adroddiad drafft

**3.2 SL(6)072 – Rheoliadau Prisio ar gyfer Ardrethu (Cymru) (Coronafeirws) 2021**

(Tudalennau 31 – 33)

Rheoliadau

Memorandwm Esboniadol

LJC(6)-13-21 – Papur 2 – Adroddiad drafft

LJC(6)-13-21 – Papur 3 – Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol at y Llywydd, 1 Tachwedd 2021

## 4 Datganiadau Ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C:

14.35 – 14.40

**4.1 WS-30C(6)003 – Rheoliadau Iechyd Anifeiliaid, Iechyd Planhigion, Hadau a Thatws Hadyd (Diwygiadau Amrywiol) 2021**

(Tudalennau 34 – 38)

LJC(6)-13-21 – Papur 4 – Datganiad ysgrifenedig, 26 Hydref 2021

LJC(6)-13-21 – Papur 5 – Sylwebaeth

## 5 Papurau i'w nodi:

14.40 – 14.45

**5.1 Gohebiaeth gan Gadeirydd y Pwyllgor Craffu ar Fframweithiau Cyffredin: Y Rhaglen Fframweithiau Cyffredin**

(Tudalennau 39 - 40)

LJC(6)-13-21 - Papur 6 - Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Craffu ar Fframweithiau Cyffredin at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Godi'r Gwastad, Tai a Chymunedau, 27 Hydref 2021 [Saesneg yn unig]

**5.2 Gohebiaeth gan Weinidog yr Economi: Cytundeb Masnach Rydd rhwng y DU, Gwlad yr Iâ, Liechtenstein a Norwy**

(Tudalennau 41 - 43)

LJC(6)-13-21 - Papur 7 - Llythyr gan Weinidog yr Economi at Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, dyddiedig 2 Tachwedd 2021

**5.3 Gohebiaeth gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol: Cyfarfod Pedairochrog y Gweinidogion Cyllid**

(Tudalennau 44 - 45)

LJC(6)-13-21 - Papur 8 - Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, 9 Tachwedd 2021

**5.4 Gohebiaeth gan Gadeirydd Pwyllgor Cyfansoddiad Tŷ'r Arglwyddi: Ymweliad y Pwyllgor Cyfansoddiad â Senedd Cymru**

(Tudalen 46)

LJC(6)-13-21 - Papur 9 - Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyfansoddiad, 9 Tachwedd 2021

**5.5 Gohebiaeth gan y Prif Weinidog: Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 19) a (Rhif 20) 2021 a Datganiad Ysgrifenedig**

(Tudalennau 47 - 49)

LJC(6)-13-21- Papur 10 - Llythyr at y Prif Weinidog, 10 Tachwedd 2021

LJC(6)-13-21- Papur 11 - Llythyr gan y Prif Weinidog, 8 Tachwedd 2021

## 6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod hwn.

14.45

## 7 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Diwygio Cyfraith Lesddaliad (Rhent Tir) ac ar y Bil Diogelwch Adeiladau Trafod y dystiolaeth

14.45 - 15.00

## 8 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol: Y Bil Sgiliau ac Addysg Ôl-16

15.00 - 15.10 (Tudalennau 50 - 67)

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol - y Bil Sgiliau ac Addysg Ôl-16

LJC(6)-13-21 - Papur 12 - Nodyn cyngor cyfreithiol

LJC(6)-13-21 - Papur 13 - Llythyr gan Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig at Gweinidog y Gymraeg ac Addysg, 18 Hydref2021

## 9 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol: Bil yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd

15.10 - 15.20 (I ddilyn)

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol - Bil yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd

Adroddiad ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar Fil yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd

LJC(6)-13-21 - Papur 14 - Nodyn cyngor cyfreithiol

## 10 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Rheoli Cymorthdaliadau

15.20 - 15.30 (Tudalennau 68 - 81)

LJC(6)-13-21 - Papur 15 - Adroddiad drafft

## 11 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Etholiadau

15.30 - 15.40 (Tudalennau 82 - 94)

LJC(6)-13-21 - Papur 16 - Adroddiad drafft

## 12 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus a Swyddi Barnwriaethol - Gohebiaeth

(Tudalennau 95 - 100)

LJC(6)-13-21 - Papur 17 - Gohebiaeth mewn perthynas â Bil Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus a Swyddfeydd Barnwrol

## 13 Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol rhwng y Senedd a Llywodraeth Cymru

15.40 - 15.50 (Tudalennau 101 - 115)

LJC(6)-13-21 - Papur 18 - Adroddiad drafft

LJC(6)-13-21 - Papur 19 - Llythyr gan y Prif Weinidog, 8 Tachwedd 2021

LJC(6)-13-21 - Papur 20 - Llythyr at y Prif Weinidog, 2 Tachwedd 2021

## 14 Fframweithiau Cyffredin

15.50 - 16.00 (Tudalennau 116 - 117)

LJC(6)-13-21 - Papur 21 - Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 8 Tachwedd 2021

# Eitem 2

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# SL(6)068 - Gorchymyn Gweithdrefn Ddatblygu (Ymgyngoreion) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2021

## Cefndir a Diben

Mae’r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 (“Gorchymyn 2012”) a Gorchymyn Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Gweithdrefn) (Cymru) 2016 (“Gorchymyn 2016”) mewn perthynas ag ymgynghori cyn ymgeisio ac ymgynghori cyn rhoi caniatâd cynllunio.

Mae Gorchymyn 2012 a Gorchymyn 2016 (y cyfeirir atynt ar y cyd fel “y Gorchmynion Gweithdrefn”) yn gosod gofyniad statudol i ymgynghori â chyrff allweddol ar y camau ymgynghori cyn ymgeisio ac ar ôl cyflwyno o'r prosesau caniatâd ar gyfer ceisiadau cynllunio a cheisiadau ar gyfer Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol.

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio'r Gorchmynion Gweithdrefn hyn er mwyn gwneud Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru yn ‘ymgyngoreion statudol’ ar gyfer mathau penodol o ddatblygiadau ar y camau cyn ymgeisio ac ar ôl cyflwyno. Bydd hyn yn gymwys i geisiadau cynllunio y bydd Awdurdodau Cynllunio Lleol yn penderfynu arnynt a cheisiadau ar gyfer datblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol y bydd Gweinidogion Cymru yn penderfynu arnynt.

Mae'r Gorchymyn hefyd yn cynnwys diwygiadau i'r meini prawf ar gyfer ymgynghori â Chyfoeth Naturiol Cymru ar faterion yn ymwneud â pherygl llifogydd. Mae angen y diwygiadau hyn yn sgil penderfyniad i gyflwyno Map Llifogydd newydd ar gyfer Cynllunio yn lle'r map cyngor datblygu a geir yn TAN 15 ar hyn o bryd. Mae'r Gorchmynion Gweithdrefn yn sicrhau yr ymgynghorir â Cyfoeth Naturiol Cymru ar ddatblygiadau ym mharth llifogydd C o'r map cyngor datblygu. Ni fydd y parth hwn yn bodoli yn y Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio. Felly er mwyn sicrhau bod gan ddatblygwyr, awdurdodau cynllunio lleol a Gweinidogion Cymru sail gyfreithiol o hyd i ymgynghori â Cyfoeth Naturiol Cymru ar geisiadau cynllunio a datblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol arfaethedig mewn ardaloedd perygl llifogydd, mae'n rhaid diwygio'r Gorchymyn.

Mae’r Gorchymyn hefyd yn cynnwys darpariaethau trosiannol. Mae erthygl 1(3) o’r Gorchymyn hwn yn darparu, pan fo cais am ganiatâd cynllunio wedi ei gyflwyno cyn 25 Ebrill 2022 a’i bod yn ofynnol i’r ceisydd fod wedi ymgynghori ag Awdurdod Tân ac Achub ond nad yw wedi gwneud hynny, fod y ceisydd i’w drin fel pe bai wedi cydymffurfio â’r gofyniad i ymgynghori ag Awdurdod Tân ac Achub perthnasol.

Mae erthygl 1(4) o’r Gorchymyn hwn yn darparu na fydd y gofyniad i awdurdod cynllunio lleol ymgynghori ag Awdurdod Tân ac Achub yn gymwys mewn perthynas â chais am

ganiatâd cynllunio a wneir cyn 25 Ebrill 2022.

O ran ceisiadau ar gyfer datblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol (y mae Gweinidogion Cymru yn penderfynu arnynt), ni fydd angen ymgynghori cyn nac ar ôl cyflwyno os hysbysir Gweinidogion Cymru o dan Erthygl 5 o Orchymyn 2016 am y cais arfaethedig cyn 24 Ionawr 2022 hyd yn oed os caiff y cais ei gyflwyno ar ôl y dyddiad hwnnw.

## Gweithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Gorchymyn gan Weinidogion Cymru cyn iddo gael ei osod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Gorchymyn cyn pen 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fydd y Senedd: (i) wedi'i diddymu, neu (ii) ar doriad sy'n fwy na phedwar diwrnod) o'r dyddiad y cafodd ei osod gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodir y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Mae'r Gorchymyn hwn yn cynnwys darpariaethau trosiannol, fel yr eglurir yn yr adran gefndir. Yn dilyn diwedd y trefniadau trosiannol hyn, bydd yn ofynnol i ymgeiswyr, awdurdodau cynllunio lleol a/neu Weinidogion Cymru (gan ddibynnu ar natur y cais) ymgynghori ag Awdurdodau Tân ac Achub pan fydd y cais yn dod o fewn categori datblygu diffiniedig y mae'n rhaid ymgynghori ag Awdurdodau Tân ac Achub yn ei gylch. Hefyd, bydd yn ofynnol i Awdurdodau Tân ac Achub ddarparu 'ymateb o sylwedd' yn unol â darpariaethau perthnasol y ddeddfwriaeth lle ymgynghorir â hwy.

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn darparu esboniad pellach o'r trefniadau trosiannol hyn. Fodd bynnag, mae fersiwn Saesneg y Memorandwm Esboniadol yn nodi mai'r dyddiadau cau perthnasol ar gyfer y trefniadau trosiannol hyn yw 11 Ebrill 2022 ar gyfer ceisiadau cynllunio a 10 Ionawr 2022 ar gyfer hysbysiadau datblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol, yn hytrach na 25 Ebrill 2022 a 24 Ionawr 2022 yn y drefn honno fel y darperir yn y gorchymyn.

Er ein bod yn derbyn nad yw'r Memorandwm Esboniadol yn rhan o'r Gorchymyn, gall y gwallau hyn achosi dryswch ynghylch effaith y trefniadau trosiannol.

Nid yw'r gwall hwn yn digwydd yn y fersiwn Gymraeg o'r Memorandwm Esboniadol, sy'n cyfeirio at y dyddiadau cywir, sef 25 Ebrill 2022 a 24 Ionawr 2022.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Rwyf yn ddiolchgar i'r Pwyllgor am dynnu sylw at y camgymeriadau yn y Memorandwm Esboniadol. Mae'r gwallau hyn wedi cael eu cywiro ac mae'r Memorandwm Esboniadol wedi cael ei dynnu'n ôl a'i ailosod.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**4 Tachwedd 2021**

# SL(6)072 - Rheoliadau Prisio ar gyfer Ardrethu (Cymru) (Coronafeirws) 2021

## Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn pennu'r rhagdybiaethau sydd i'w gwneud wrth gymhwyso darpariaethau is-baragraffau (1) i (7) o baragraff 2 o Atodlen 6 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 mewn cysylltiad â gwerth ardrethol eiddo annomestig. Defnyddir y gwerth ardrethol i gyfrifo atebolrwydd am ardrethi annomestig.

Effaith y Rheoliadau yw na fydd trethdalwyr eiddo annomestig yng Nghymru yr effeithir arnynt gan:

1. ymateb Llywodraeth Cymru neu Lywodraeth y DU i'r coronafeirws;

2. unrhyw ofyniad, cyngor neu ganllawiau mewn ymateb i'r coronafeirws gan unrhyw awdurdod cyhoeddus yn y DU, Llywodraeth Cymru, Llywodraeth yr Alban, Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon, Llywodraeth y DU neu lywodraeth y tu allan i'r DU, neu

3. fesurau a gymerir i sicrhau cydymffurfedd â deddfwriaeth iechyd a diogelwch,

yn gallu dyfynnu'r materion hynny fel rhai sy'n achosi newid perthnasol mewn amgylchiadau at ddibenion apelio o ran gwerth ardrethol eiddo annomestig ar restrau ardrethu 2017.

Daeth y Rheoliadau i rym ar 1 Tachwedd 2021.

## Y weithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddyddiau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gosodwyd gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodir y ddau bwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Nodwn y torrir y rheol 21 diwrnod (h.y. y rheol y dylai 21 diwrnod fod rhwng y dyddiad y gosodir offeryn "gwneud negyddol" gerbron y Senedd a'r dyddiad y daw'r offeryn i rym), a'r esboniad am dorri'r rheol, a ddarparwyd gan Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, mewn llythyr at y Llywydd, dyddiedig 1 Tachwedd 2021. Yn benodol, nodwn y canlynol yn y llythyr:

> *"Bydd [yr offeryn statudol hwn]… yn dod i rym am 6pm ar y diwrnod y caiff ei osod. Y rhesymeg yw atal unrhyw risg bellach i arian cyhoeddus sy'n deillio o rai apelau ardrethi annomestig sy'n ymwneud â Covid-19.*"

O ystyried y brys a nodwyd, a'r cyfeiriad at "risg uniongyrchol" i gyllid cyhoeddus ym mharagraff 5 o'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Rheoliadau, mae'r Pwyllgor yn gofyn am esboniad gan Lywodraeth Cymru ynghylch y rheswm dros osod y Rheoliadau hyn gerbron y Senedd ar 1 Tachwedd 2021, gan nodi bod rheoliadau cyfatebol sy'n berthnasol i Loegr (sef Rheoliadau Prisio ar gyfer Ardrethu (Coronafeirws) (Lloegr) 2021 (OS 2021/398)) wedi'u gosod gerbron Senedd y DU a daethant i rym ar 25 Mawrth 2021, sef dros saith mis cyn y Rheoliadau dan sylw.

**2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Nodwn yr esboniad a ddarparwyd gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol yn y llythyr dyddiedig 1 Tachwedd 2021 y cyfeiriwyd ato uchod, sef y byddai darpariaethau'r Rheoliadau hyn yn cael eu disodli gan Fil Ardrethu (Coronafeirws) ac Anghymhwyso Cyfarwyddwyr (Cwmnïau a Ddiddymwyd) Llywodraeth y DU, os caiff y Bil hwnnw ei basio.

Nodwn ymhellach fwriad Llywodraeth Cymru i ddirymu'r Rheoliadau hyn o dan yr amgylchiadau hynny, fel y nodir ym mharagraff 6 o'r Memorandwm Esboniadol.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru i'r pwynt rhinweddau cyntaf.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**9 Tachwedd 2021**

**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**Minister for Finance and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA-RE-2315-21

Elin Jones,
Y Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

1 Tachwedd 2021

Annwyl Elin,

**RHEOLIADAU PRISIO AR GYFER ARDRETHU (CYMRU) (CORONAFEIRWS) 2021**

Yn unol ag adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, rwy'n eich hysbysu y daw'r offeryn statudol hwn i rym ar 1 Tachwedd, lai nag 21 diwrnod ar ôl iddo gael ei osod. Gwneir yr offeryn statudol hwn o dan adran 143(2) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 a pharagraff 2(8) o Atodlen 6 iddi. Bydd yn dod i rym am 6pm ar y diwrnod y caiff ei osod. Y rhesymeg yw atal unrhyw risg bellach i arian cyhoeddus sy'n deillio o rai apelau ardrethi annomestig sy'n ymwneud â Covid-19. Mae copi o'r offeryn ac o'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd ag ef wedi'u hamgáu er gwybodaeth i chi.

Mae cysylltiad agos rhwng y Rheoliadau a darpariaethau yn y *Bil Ardrethu (Coronafeirws) ac Anghymhwyso Cyfarwyddwyr (Cwmnïau a Ddiddymwyd*) sy'n mynd rhagddo drwy Senedd y DU ar hyn o bryd. Byddai darpariaethau yn y Bil, os cânt eu pasio, yn disodli'r Rheoliadau hyn. Gosodwyd gwelliannau yn ymwneud â Chymru ar 9 Medi a gosodais Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar 21 Medi, sy'n cael ei ystyried gan Bwyllgor ar hyn o bryd. Bwriadaf gynnal dadl y Cyfarfod Llawn ar y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil hwn ar 23 Tachwedd.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Lesley Griffiths AS, y Gweinidog Materion Gwledig, Gogledd Cymru a'r Trefnydd, Huw Irranca-Davies AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Peredur Owen Griffiths AS, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid, Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd, Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a Phwyllgorau a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir

Rebecca Evans

**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Minister for Finance and Local Government

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Eitem 4.1

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Rheoliadau Iechyd Anifeiliaid, Iechyd Planhigion, Hadau a Thatws Hadyd (Diwygiadau Amrywiol) 2021** |
| **DYDDIAD** | **26 Hydref 2021** |
| **GAN** | **Lesley Griffiths AS, Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd** |

**OS a osodwyd yn Senedd y DU, sy'n diwygio deddfwriaeth mewn maes datganoledig.**

**Rheoliadau Iechyd Anifeiliaid, Iechyd Planhigion, Hadau a Thatws Hadyd (Diwygiadau Amrywiol) 2021 ("y Rheoliadau")**

Mae'r Rheoliadau'n diwygio'r ddeddfwriaeth a ganlyn:

Is-ddeddfwriaeth

- Rheoliadau Hadau (Rhestrau Cenedlaethol o Amrywiogaethau) 2001 (O.S. 2001/3510)
- Rheoliadau Tatws Hadyd (Lloegr) 2015 (O.S. 2015/1953)
- Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio ac ati) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1482)

Deddfwriaeth yr UE a ddargedwir:

- Rheoliad (CE) rhif 999/2001 Senedd Ewrop a'r Cyngor yn pennu'r rheolau ar gyfer atal, rheoli a dileu rhai enseffalopathïau sbyngffurf trosglwyddadwy.
- Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) rhif 139/2013 yn pennu'r amodau iechyd anifeiliaid ar gyfer mewnforio rhai mathau o adar i'r Undeb a'r amodau cwarantin fydd eu hangen ar eu cyfer.
- Rheoliad (UE) rhif 576/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar symud anifeiliaid anwes at ddibenion anfasnachol.

- Rheoliad Gweithredu’r Comisiwn (UE) 2019/2072 yn sefydlu amodau unffurf ar gyfer gweithredu Rheoliad (UE) 2016/2031 Senedd Ewrop a’r Cyngor ar fesurau amddiffyn rhag plâu planhigion (EUR 2019/2072).
- Rheoliad Gweithredu’r Comisiwn (UE) 2019/2148 ar reolau penodol ar ryddhau planhigion, cynnyrch planhigion a gwrthrychau eraill o orsafoedd cwarantin a chyfleusterau cadw yn unol â Rheoliad (UE) 2016/2031 Senedd Ewrop a’r Cyngor (EUR 2019/2148).
- Rheoliad Gweithredu’r Comisiwn (UE) 2020/1231 ar y fformat a’r cyfarwyddiadau ar gyfer yr adroddiadau blynyddol ar ganlyniadau’r arolygon ac ar fformat y rhaglenni arolygu amlflynyddol a’r trefniadau ymarferol,.

**Unrhyw effaith y gallai'r OS ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd Cymru a/neu gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru**

Mae’r Rheoliadau hyn yn rhoi swyddogaeth i Weinidogion Cymru heb lyffethair fel 'Awdurdod Cymwys'. Maent hefyd yn rhoi swyddogaethau i Sefydliad Diogelu Planhigion Cenedlaethol Prydain Fawr a'r Deyrnas Unedig. Gall y swyddogaethau hyn fod yn swyddogaethau awdurdod neilltuedig at ddibenion paragraff 8(1) o Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ac o'r herwydd maent yn cynrychioli cyfyngiad posibl ar gymhwysedd y Senedd yn y dyfodol.

**Pwrpas y diwygiadau**

Mae'r Rheoliadau'n cywiro diffygion yng ngallu cyfraith yr UE a ddargedwir i weithio'n effeithiol ar ôl i’r Deyrnas Unedig (“y DU”) ymadael â’r Undeb Ewropeaidd (“yr UE”). Bydd hyn yn sicrhau bod mesurau ar gyfer rheoli iechyd planhigion ac anifeiliaid yn gweithio'n effeithiol i ddiogelu bioddiogelwch ac yn cefnogi masnach rhwng Prydain Fawr a thrydydd gwledydd perthnasol.

Mae'r Rheoliadau yn gwneud diwygiadau i is-ddeddfwriaeth i gywiro diffygion sy'n ymwneud ag iechyd planhigion, hadau a thatws hadyd sydd wedi codi o ganlyniad i ymadawiad y DU â’r UE.

Mae'r Rheoliadau hefyd yn cywiro gwallau mewn offerynnau statudol gwahanol.

O ran iechyd planhigion, mae'r Rheoliadau'n ymdrin ag unrhyw ddiffygion sy'n weddill na chawsant eu cywiro mewn diwygiadau blaenorol sy’n ymwneud ag Ymadael â'r UE. Mae hyn yn cynnwys diwygio rhai darpariaethau trosiannol i sicrhau eu bod yn cael eu hestyn i blanhigion risg is a chynhyrchion planhigion sy'n dod i Brydain Fawr o Liechtenstein a'r Swistir yn ogystal ag o Aelod-wladwriaethau'r UE. Hefyd, mae Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) 2019/2148, sy'n ymwneud â rhyddhau planhigion, cynhyrchion planhigion a gwrthrychau eraill o orsafoedd cwarantin a chyfleusterau cadw, yn cael ei ddiwygio i wneud y rheoliad hwn yn weithredol ym Mhrydain Fawr.

O ran iechyd anifeiliaid, mae'r Rheoliadau'n dileu pwynt diangen sy'n dyblygu ac sy’n gwrthddweud pwyntiau eraill sy'n ymwneud â’r risgiau sy'n gysylltiedig â chlefyd y crafu mewn defaid a geifr. Mae Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) rhif 139/2013 yn cael ei ddiwygio er mwyn dileu datgymhwyso'r Rheoliad hwnnw ar gyfer mewnforio adar penodol o Andorra, Liechtenstein, Monaco, Norwy, San Marino, y Swistir a Dinas-wladwriaeth Vatican, ar ôl i'r DU ymadael â’r UE. Mae Rheoliad y Comisiwn (UE) Rhif 576/2013 yn cael ei ddiwygio i sicrhau cysondeb yn yr iaith wrth gyfeirio at ddeddfwriaeth yr UE.

O ran hadau a thatws hadyd, mae'r Rheoliadau'n gwneud mân gywiriadau i ddau offeryn statudol.

Mae'r Rheoliadau a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig, sy'n nodi manylion tarddiad, diben ac effaith y diwygiadau ar gael yma:

[The Animal Health, Plant Health, Seeds and Seed Potatoes (Miscellaneous Amendments) Regulations 2021 - GOV.UK (www.gov.uk)]

**Pam cafodd caniatâd ei roi**

Mae caniatâd wedi’i roi i Lywodraeth y DU wneud y cywiriadau hyn mewn perthynas â Chymru, ac ar ei rhan, am resymau effeithlonrwydd, hwylustod ac oherwydd natur dechnegol y diwygiadau. Mae'r diwygiadau wedi'u hystyried yn llawn ac nid oes gwahaniaeth mewn polisi.

Mae'r datganiad hwn yn cael ei wneud yn ystod y toriad er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau.

| GWEINIDOGION Y DU SY'N GWEITHREDU MEWN MEYSYDD DATGANOLEDIG | |
|---|---|
| **003 - Rheoliadau Iechyd Anifeiliaid, Iechyd Planhigion, Hadau a Thatws Hadyd (Diwygiadau Amrywiol) 2021**<br>Dyddiad gosod yn Senedd y DU: 3 Tachwedd 2021 | |
| **Sifftio** | |
| A fydd angen eu sifftio yn Senedd y DU? | Na fydd |
| Gweithdrefn: | Gwneud Negyddol |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Ewropeaidd Tŷ'r Cyffredin | Amh |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi | Amh |
| Dyddiad y daw'r cyfnod sifftio i ben yn Senedd y DU | Amh |
| Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol (SICM) o dan Reol Sefydlog 30A (oherwydd eu bod yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol) | Dim angen |
| **Gweithdrefn graffu** | |
| Canlyniad y broses sifftio | Amh |
| Gweithdrefn | Gwneud Negyddol |
| Dyddiad trafod gan y Cydbwyllgor ar Offerynnau Statudol | Anhysbys |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Tŷ'r Cyffredin | Anhysbys |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi | Anhysbys |

**Cefndir**

Bwriedir i'r Rheoliadau hyn gael eu gwneud gan Lywodraeth y DU yn unol ag adran 8(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, a pharagraff 21 o Atodlen 7 iddi.

**Crynodeb**

Diben y Rheoliadau hyn yw mynd i'r afael â methiannau yng nghyfraith yr UE a ddargedwir i weithredu'n effeithiol yn sgil ymadawiad y DU â'r UE. Bydd hyn yn sicrhau y gall rheolaethau iechyd ar gyfer planhigion ac anifeiliaid weithredu'n effeithiol i amddiffyn bioddiogelwch a chefnogi masnach rhwng Prydain Fawr a'r trydydd gwledydd perthnasol.

Mae'r Rheoliadau'n gwneud newidiadau i ddeddfwriaeth eilaidd i gywiro diffygion sy'n ymwneud ag iechyd planhigion, hadau a thatws hadyd sydd wedi codi o ganlyniad i ymadawiad y DU â'r UE.

Mae'r Rheoliadau hefyd yn cywiro gwallau mewn amryw offerynnau statudol.

**Datganiad gan Lywodraeth Cymru**
Mae datganiad Llywodraeth Cymru yn nodi bod y Rheoliadau:

> *"…yn rhoi swyddogaethau i Sefydliad Diogelu Planhigion Cenedlaethol Prydain Fawr a'r Deyrnas Unedig. Gall y swyddogaethauhyn fod yn swyddogaethau awdurdod neilltuedig at ddibenion paragraff 8(1) o Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ac o'r herwydd maent yn cynrychioli cyfyngiad posibl ar gymhwysedd y Senedd yn y dyfodol."*

Nid yw'r datganiad yn nodi pa rai o bwerau deddfwriaethol y Senedd na pha rai o bwerau gweithredol Gweinidogion Cymru y mae'r offeryn hwn yn effeithio arnynt. Mae cynghorwyr cyfreithiol yn argymell y dylid gofyn am eglurhad ynghylch pa bwerau datganoledig yr effeithir arnynt a sut y gall y Rheoliadau gyfyngu o bosibl ar gymhwysedd y Senedd yn y dyfodol.

**Cytundeb Rhynglywodraethol ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael)**
Mae'r crynodeb uchod a chynnwys y Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau hyn yn cadarnhau eu heffaith.

Gan ei bod yn aneglur o ddatganiad Llywodraeth Cymru, dyddiedig 26 Hydref 2021, beth fydd effaith bosibl y Rheoliadau ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd a/neu gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru, nid yw'r Cynghorwyr Cyfreithiol wedi gallu asesu a oes unrhyw faterion arwyddocaol yn codi o dan baragraff 8 o'r Memorandwm ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a Sefydlu Fframweithiau Cyffredin mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.

HOUSE OF LORDS
Common Frameworks Scrutiny Committee

House of Lords
London
SW1A 0PW
Tel: 020 7219 8664
hlcommonframeworks@parliament.uk

27 October 2021

The Rt Hon Michael Gove MP
Secretary of State for Levelling Up, Housing and Communities
Department for Levelling Up, Housing & Communities
2 Marsham Street
London
SW1P 4DF

Dear Michael,

I write on behalf of the Common Frameworks Scrutiny Committee to welcome you to your new post.

We understand that as you have taken responsibilities for the Union into DLUHC with you, this also means that your new department and your Under-Secretary of State, Neil O'Brien, now have responsibility for the Common Frameworks Programme. We have already been in contact with Mr O'Brien, and we look forward to meeting him very soon to discuss the progress of the Common Frameworks, and their contribution to ensuring a cooperative Union.

In the meantime, we look to you for reassurance that the Common Frameworks Programme will maintain its profile inside DLUHC, and its significance within Government as a whole because as you would agree, Common Frameworks are a source of strength and innovation for the Union. This power to make a difference could be lost by the move away from the Cabinet Office which gave the Programme both profile and energetic central purpose, unless a positive attempt is made to maintain and communicate its significance to the whole of your department. It would carry consequences across the UK if it were seen as just one more element of domestic or local policy.

We raise this point specifically because, in the list of policy areas assigned to Mr O'Brien, there is no mention of Common Frameworks and we wonder why that is? Equally, we are concerned as to whether the expertise and the careful relationships established by the excellent Cabinet Office team that we have worked with to drive improvements in the Programme will continue, and where will they be located.

Common Frameworks are still fragile, and the Programme is far from finished. It is highly iterative, and a great deal of work lies ahead of us as a Committee, not least with the devolved administrations themselves. If the frameworks are to realise their promise of underpinning a stronger and more effective Union, there needs to be central coordination, drive, and invigilation. Given the move to your new department, and given the delicate

state of relationships with Wales, Scotland and Northern Ireland, we would ask how you intend to ensure that this continues, and that the Frameworks become a visible part of your department's work programme.

We have no doubt that the state of the Union is a matter close to your heart as Secretary of State, and that the issues raised by Common Frameworks will be given the weight that they must have. In that context you may be interested in the debate in the House of Lords, on Wednesday 13 October on our first report, which sets out some of the issues that still need to be addressed as we go forward.

Thank you very much indeed.

Yours sincerely,

Baroness Andrews
Chair of the Common Frameworks Scrutiny Committee

**Vaughan Gething AS/MS**
**Gweinidog yr Economi**
**Minister for Economy**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/VG/3543/21

Paul Davies AS
Cadeirydd, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig
Senedd Cymru
Caerdydd
CF99 1SN

2 Tachwedd 2021

Annwyl Paul,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 8 Hydref 2021 lle rydych yn gofyn am ragor o wybodaeth am y Cytundeb Masnach Rydd rhwng y DU, Gwlad yr Iâ, Liechtenstein, a Norwy.

Mae masnach rhwng Cymru a Gwlad yr Iâ a Norwy yn gymharol isel. Roedd masnach mewn nwyddau gyda Norwy a Gwlad yr Iâ yn cyfrif am bron i 1.5% o fasnach nwyddau Cymreig yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2021 o'i gymharu â'r UE sy'n cyfrif am tua 51.1% o fasnach nwyddau Cymreig. Nid oes data ar gael ar werth masnach rhwng Cymru a Liechtenstein. Mae asesiad macroeconomaidd ynghlwm wrth y llythyr hwn o dan Atodiad A. O ystyried nad yw'r gwledydd hyn yn cynrychioli marchnadoedd mewnforio nac allforio sylweddol i Gymru ac mae elfen nwyddau'r cytundeb yn anelu'n bennaf at greu mwy o barhad o'r adeg pan oeddem yn aelodau o'r UE, nid oes asesiad llawn o effaith y cytundeb wedi'i gynnal.

Drwy gydol y negodiadau, gwnaeth fy swyddogion gyfarfod â'r Prif Negodydd ar gyfer y cytundeb wrth i'r negodiadau fynd rhagddynt, yn ogystal â chael diweddariadau gan dimau polisi unigol Llywodraeth y DU. Rhoddodd hyn gyfle i ni ddeall a thynnu sylw at unrhyw elfennau o'r negodiadau nad oeddent yn cyd-fynd â'n blaenoriaethau neu bolisi domestig ein hunain. Fodd bynnag, o ystyried natur y cytundeb, nid oedd angen sylwadau i geisio newidiadau i flaenoriaethau negodi Llywodraeth y DU, nac i unrhyw un o'r darpariaethau a negodwyd. Roedd fy swyddogion hefyd yn gallu ystyried testun drafft y penodau sy'n ymwneud â materion sydd wedi'u datganoli a'i effaith bosibl ar Gymru. Gan fod y cytundeb hwn yn deillio o ailnegodi ac yn alinio trefniadau masnachu â thelerau Cytundeb Masnach a Chydweithredu'r DU a'r UE, mae'n golygu na fydd fawr o newidiadau i'n busnesau sydd eisoes yn masnachu gyda Norwy, Gwlad yr Iâ a Liechtenstein. Fodd bynnag, mae'n gadarnhaol bod y cytundeb yn cynnwys penodau penodol ar fasnach ddigidol a busnesau bach. Dyma'r tro cyntaf i unrhyw gytundeb masnach â'r tair gwlad Ewropeaidd hyn gynnwys penodau annibynnol sy'n cwmpasu'r meysydd hyn.

Mae'r unig newid deddfwriaethol a nodwyd hyd yma i weithredu'r cytundeb hwn yn ymwneud â phennod caffael o fewn y Cytundeb Masnach Rydd y mae angen ei ychwanegu at amserlenni cytundeb masnach ryngwladol y DU mewn rheoliadau caffael domestig. Bydd y

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

darnau canlynol o ddeddfwriaeth ddomestig yn gofyn am ddiwygiadau yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon: Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015; Rheoliadau Contractau Cyfleustodau 2016 a Rheoliadau Contractau Consesiwn 2016. Mae Swyddfa'r Cabinet yn bwriadu gwneud y diwygiadau drwy offeryn statudol o dan adran 2 o Ddeddf Masnach 2021.

Edrychaf ymlaen at fynychu cyfarfod nesaf y Pwyllgor ar 11 Tachwedd.

Yn gywir



**Vaughan Gething AS/MS**
Gweinidog yr Economi
Minister for Economy

**Asesiad Macroeconomaidd o Fasnach Nwyddau Cymreig gyda Norwy, Gwlad yr Iâ a Liechtenstein**

Mae'r data diweddaraf sydd ar gael ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2021 yn dangos bod gwerth masnach nwyddau Cymreig gyda Norwy a Gwlad yr Iâ yn gymharol isel, gwerth tua £398.5m a £9.0m yn y drefn honno. Mae hyn yn cyfrif am tua 1.46% a 0.03% o gyfanswm masnach nwyddau Cymreig. Nid oes data ar gael ar werth masnach nwyddau rhwng Cymru a Liechtenstein.

Mae dadansoddiad[1] yn awgrymu bod ein hallforion nwyddau i Norwy yn cael eu dominyddu gan nifer fach o sectorau, gyda 'Haearn a dur', 'Peiriannau ac offer cynhyrchu pŵer', a 'Cherbydau ffyrdd' yn cyfrif am 44.9% o gyfanswm allforion nwyddau o Gymru i Norwy. Ar yr ochr fewnforio, mae dros 75% o'n mewnforion o Norwy o fewn y sector 'Petrolewm, cynhyrchion petrolewm a deunyddiau cysylltiedig'. Mae tystiolaeth yn dangos bod masnach o fewn y sector hwn yn cynnwys nwyddau sy'n symud i mewn ac allan o Gymru heb fawr o brosesu domestig, gan ddangos felly mai prin yw'r cyfleoedd yn y sector hwn i gyfrannu at gyflogaeth a gwerth ychwanegol yng Nghymru.

Ar gyfer Gwlad yr Iâ, mae'r sectorau allforio uchaf yn cynnwys 'Grawn a pharatoadau grawn', 'Cyfarpar proffesiynol, gwyddonol a rheoli', a 'Gosodiadau adeiladau, plymio, gwresogi a goleuo', sydd wedi'u cyfuno yn cyfrif am oddeutu 27.0% o gyfanswm allforion nwyddau Cymreig i Wlad yr Iâ. Ar yr ochr fewnforion, mae 'olew a brasterau o anifeiliaid' yn cyfrif am oddeutu traean (33.0%) o gyfanswm ein mewnforion nwyddau o Wlad yr Iâ. Fodd bynnag, dylid nodi bod gwerth isel mewnforion ac allforion yn golygu y gall pwysigrwydd cymharol sectorau fod yn anwadal, felly mae angen cymryd gofal i osgoi gor-ddehongli'r data sydd ar gael.

O ystyried gwerth isel masnach nwyddau ac argaeledd data cyfyngedig, defnyddir dull cymesur o ran asesiad macroeconomaidd o'r Cytundeb Masnach Rydd. O dan y dull hwn, cynhelir asesiad lefel uchel o'r data llif masnach sydd ar gael. Fodd bynnag, nid yw'r cytundeb yn bodloni'r meini prawf ar gyfer asesiad llawn yn seiliedig ar fodelu economaidd. Mae hyn yn cyd-fynd yn fras â'r dull a ddefnyddir gan Lywodraeth y DU: Asesiad Effaith Norwy, Gwlad yr Iâ a Liechtenstein (publishing.service.gov.uk)

Gwerth Masnach Nwyddau Cymreig gyda Norwy, Gwlad yr Iâ a Liechtenstein

| Gwlad | Gwerth Allforion Nwyddau (% o gyfanswm allforion nwyddau o Gymru) | Safle | Gwerth Mewnforion Nwyddau (% o gyfanswm mewnforion nwyddau i Gymru) | Safle |
|---|---|---|---|---|
| Norwy | £103.2m (0.8%) | 22ain | £295.3m (2.1%) | 14eg |
| Gwlad yr Iâ | £6.2m (0.05%) | 78fed | £2.8m (0.02%) | 79fed |
| Liechtenstein | Dim data ar gael | | Dim data ar gael | |

*Ffynhonnell: CThEM, RTS, Y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2021.*
*Sylwer, mae'r tabl uchod yn dangos gwerth masnach nwyddau gyda phob gwlad unigol ar gyfer y cyfnod diweddaraf sydd ar gael (blwyddyn yn diweddu Mehefin 2021), felly efallai y bydd yn adlewyrchu effaith pandemig Covid-19. Mae ansicrwydd o hyd ynghylch trywydd yr adferiad mewn masnach nwyddau Cymreig yn y dyfodol, felly dylid dehongli'r ffigurau hyn yn ofalus.*

[1] Mae'r dadansoddiad hwn yn seiliedig ar gyfartaledd tair blynedd (2018-2020) i leihau effaith ansefydlogrwydd masnach.

**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**Minister for Finance and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

9 Tachwedd 2021

Annwyl Huw

Yn dilyn fy llythyr diweddar i roi gwybod ichi am gyfarfod pedairochrog y Gweinidogion Cyllid ar 14 Hydref, rwy'n ysgrifennu i roi adroddiad cryno ar y trafodaethau a gafwyd.

Cafwyd pwyslais naturiol ar gynigion Llywodraeth y DU ar gyfer Adolygiad o Wariant a Chyllideb yr Hydref Llywodraeth y DU, gydag ychydig o eglurder pellach wedi'i gael ar yr adeg honno. Mae manylion effaith Adolygiad o Wariant a Chyllideb yr Hydref Llywodraeth y DU ar 27 Hydref wedi'u nodi yn fy Natganiad Ysgrifenedig.

Datganiad Ysgrifenedig: Adolygiad o Wariant a Chyllideb Hydref 2021 Llywodraeth y DU (28 Hydref 2021) | LLYW.CYMRU

Mewn perthynas â'r eitem ar Ddeddf Marchnad Fewnol y DU a defnyddio'r Pwerau Cymorth Ariannol a geir ynddi, galwais ar y Prif Ysgrifennydd i egluro sut y bwriadai Llywodraeth y DU weithio gyda graen polisi Llywodraethau Datganoledig, fel y nodwyd gan y Gweinidog dros Gysylltiadau Rhynglywodraethol. Manteisiais ar y cyfle hefyd i bwysleisio pa mor bwysig ydyw bod Cymru yn cael cyllid yn lle'r swm llawn o gyllid yr UE a rhoddais enghreifftiau o raglenni cenedlaethol, gan gynnwys prentisiaethau a chymorth busnes, sy'n dibynnu ar y cyllid hwnnw ac sy'n hanfodol i'n hadferiad economaidd. O ran cyllid yn lle'r cyllid hwnnw ar gyfer materion gwledig, mynegais bryderon ynghylch y fethodoleg a ddefnyddiwyd, gan grynhoi sut nad yw'n cwmpasu'r swm llawn o gyllid yr UE a oedd wedi'i gynllunio gan Lywodraeth Cymru. Gofynnais am gael ymgysylltu ymhellach ynghylch y fethodoleg hon, gyda'r nod o unioni'r sefyllfa.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Roedd yr eitem Sero-Net ar yr agenda yn gyfle i rannu'r wybodaeth ddiweddaraf a phrofiadau. Fel Llywodraethau Datganoledig, gwnaethom fanteisio hefyd ar y cyfle i bwysleisio pwysigrwydd ein cais am fwy o hyblygrwydd cyllidebol, yn arbennig mewn perthynas â'n terfynau benthyca cyfalaf, er mwyn gallu buddsoddi mewn seilwaith carbon isel.

Yn gywir,



**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Minister for Finance and Local Government

HOUSE OF LORDS
Select Committee on the Constitution

House of Lords
London
SW1A 0PW

Tel: 020 7219 1228
constitution@parliament.uk
www.parliament.uk/lords

Huw Irranca-Davies MS
Chair, Legislation, Justice and Constitution Committee
Senedd Cymru

9 November 2021

**BY EMAIL**

Dear Huw,

**Constitution Committee's visit to the Senedd Cymru**

On behalf of the Constitution Committee, I wanted to thank you for all your help and support in ensuring the Committee's visit to the Senedd Cymru was such a success on 21 October.

We were very appreciative of the warm reception we received from your committee members and officials throughout the visit. The informal discussion between our committees provided valuable material for our inquiry into the future governance of the UK.

The visit also demonstrated the value of greater interparliamentary engagement, which we intend to focus on in our report, among other matters. We intend to publish our report by the end of this year.

We look forward to engaging with your committee again in the future. We would also be very happy to host your committee if it decides to visit Westminster in due course.

Yours sincerely,

Baroness Taylor of Bolton
Chair of the Constitution Committee

**Y Gwir Anrh/Rt Hon Mark Drakeford AS/MS**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

SeneddDCC@senedd.cymru

10 Tachwedd 2021

Annwyl Huw,

**Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 19) a (Rhif 2020) 2021 a'r Datganiad Ysgrifenedig**

Rwy' n ysgrifennu mewn ymateb i'ch llythyr dyddiedig 8 Tachwedd. Yn y Datganiad Ysgrifenedig, defnyddiwyd iaith gref i danlinellu mor bwysig yw hi i gysylltiadau cartref hunanynysu pan fydd aelod o'u cartref yn profi'n bositif neu os oes ganddynt symptomau. Y rheswm am hyn yw mai hunanynysu yw un o'r mesurau mwyaf effeithiol sydd gennym i helpu i atal y feirws rhag cael ei drosglwyddo.

Mae ein canllawiau a'n deunydd cyfathrebu yn ceisio nodi'n glir mai cyngor yw hwn, yn hytrach na gofyniad cyfreithiol. Mae'r canllawiau ar hunanynysu yn dweud y dylai pobl hunanynysu oes rhywun yn eu cartref â symptomau neu wedi profi'n bositif, a'u bod wedi'u brechu'n llawn neu rhwng 5 ac 17 oed, a chymryd prawf PCR.

Rydym yn cytuno â'r Pwyllgor ei bod yn bwysig bod dinasyddion yn deall eu rhwymedigaethau cyfreithiol ac rydym yn gwneud pob ymdrech i fod yn glir ynghylch yr hyn sy'n ofyniad cyfreithiol a'r hyn sy'n argymhelliad neu'n gyngor.

Yn gywir,

**MARK DRAKEFORD**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Y Gwir Anrhydeddus Mark Drakeford AS
Prif Weinidog Cymru

8 Tachwedd 2021

Annwyl Mark

Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 19) 2021
Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 20) 2021, a Datganiad Ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru: Adolygiad o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020 – 29 Hydref 2021

Yn ein cyfarfod ddydd Llun yr wythnos hon, trafodwyd y Rheoliadau uchod ac, wrth wneud hynny, buom yn myfyrio ar rai o'r geiriau a ddefnyddiwyd yn eich datganiad ysgrifenedig dyddiedig 29 Hydref 2021, lle defnyddiwyd "rhaid" mewn perthynas â hunanynysu ar gyfer pobl sydd wedi'u brechu'n llawn.

Yn y datganiad ysgrifenedig rydych yn dweud:

> *"Bydd y canllawiau hunanynysu yn cael eu newid. Rhaid i oedolion sydd wedi'u brechu'n llawn a phlant rhwng pump a 17 oed hunanynysu os oes gan rywun ar eu haelwyd symptomau neu ganlyniad prawf positif am Covid-19 nes eu bod wedi cael canlyniad prawf PCR negatif.* "

Fodd bynnag, nid yw Rheoliadau Rhif 19 na Rhif 20 yn gwneud darpariaeth i'w gwneud yn ofynnol i ynysu fel y disgrifir yn eich datganiad ysgrifenedig.

Fe gofiwch i'n pwyllgor rhagflaenol yn y Pumed Senedd fynegi pryderon ynghylch yr iaith a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru i ddisgrifio'r hyn sy'n gyfraith a'r hyn sy'n gyngor y llywodraeth. Yn ddiau, byddwch yn cytuno ei bod yn bwysig bod dinasyddion Cymru yn deall y gyfraith sy'n berthnasol iddynt yn llawn, a bod angen osgoi'r posibilrwydd o negeseuon dryslyd.

Byddwn yn ddiolchgar o gael ymateb gennych sy'n egluro'r materion a godwyd uchod cyn gynted ag sy’n bosibl.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Eluned Morgan AS, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

Yn gywir

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Mick Antoniw AS/MS**
**Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad**
**Counsel General and Minister for the Constitution**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS (Cadeirydd)
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

08 Tachwedd 2021

Annwyl Huw,

Rwyf yn ysgrifennu yn unol â'r Cytundeb Cysylltiadau Rhyng-sefydliadol i'ch hysbysu y cynhelir cyfarfod gweinidogol pedairochrog ar Fframweithiau Cyffredin ar 10 Tachwedd am 14.15. Cynhelir y cyfarfod hwn yn rhithiol.

Bwriedir i'r cyfarfod gael ei fynychu gan Weinidogion sy'n gyfrifol am y rhaglen Fframweithiau Cyffredin o Lywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban, Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon a minnau fel y Gweinidog yn Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am y rhaglen.

Bydd y cyfarfod yn canolbwyntio ar ddatrys materion trawsbynciol (gan gynnwys Deddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig (2020), Cysylltiadau Rhyngwladol a Phrotocol Gogledd Iwerddon, a chytuno ar gynllun ar gyfer cyhoeddi Fframweithiau Cyffredin at ddibenion craffu.

Mae'r agenda ddrafft isod:

1. Camau gweithredu craidd o'r Cyfarfod Pedairochrog diwethaf
2. Cynnydd diweddar ar draws y rhaglen
    a. Materion trawsbynciol: Deddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig
    b. Materion trawsbynciol: Cysylltiadau Rhyngwladol
    c. Materion trawsbynciol: Protocol Gogledd Iwerddon
3. Amserlenni cyflawni
    a. Amserlenni cyflawni'r rhaglen
    b. Cyhoeddi Fframweithiau
4. Prif ffrydio (Adrodd yn y Dyfodol)

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru
Correspondence.Mick.Antoniw@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Byddwch wedi cael gwybod am y cyfarfod pedairochrog cyn pen pythefnos ar ôl iddo gael ei gynnal.

Yn gywir

**Mick Antoniw AS/MS**
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
Counsel General and Minister for the Constitution